# Gwaith Dilynol ar yr Arolygiad Arbennig a'r Adroddiadau er Budd y Cyhoedd

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 696A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gynorthwyo gan Anthony Barrett, Alan Morris, Non Jenkins, Martin Gibson a PricewaterhouseCoopers LLP wrth ymgymryd â'r gwaith dilynol a pharatoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig a'r Adroddiadau er Budd y Cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon o hyd ynglŷn â'r lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol a gwella meysydd eraill ymhellach, yn enwedig craffu.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n hargymhellion ond mae angen iddo wneud penderfyniad cyfreithlon o hyd ynglŷn â'r lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol | 5 |
| Dylai rhai meysydd sydd eto i'w cwblhau gael eu cwblhau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf | 7 |
| Mae angen gwneud rhagor o waith i wella prosesau craffu, archwilio mewnol a hunanwerthuso; a datblygu strategaeth adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu | 8 |
| Argymhellion | 12 |
| Cynigion ar gyfer gwella | 12 |
| Atodiadau | |
| Argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig | 14 |
| Argymhellion a wnaed yn y ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd | 15 |
| Canfyddiadau manwl dilynol – grid tystiolaeth | 17 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol Arolygiad Arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor). Diben yr Arolygiad Arbennig oedd gwneud gwaith dilynol ar ganfyddiadau'r Archwilydd Penodedig a gyhoeddodd Adroddiad er Budd y Cyhoedd ym mis Mawrth 2013[1]. Nododd yr adroddiad hwnnw fethiannau yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a ddilynwyd gan y Cyngor wrth bennu cyflog prif swyddogion. Ystyriodd yr Arolygiad Arbennig y materion ehangach o ran llywodraethu corfforaethol a nodwyd yn Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar 10 Medi 2013[2].

**2.** Cyhoeddwyd ail Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar lwfansau Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Gwyliau Blynyddol y Prif Swyddog ym mis Rhagfyr 2013[3]. Mae achosion llys ac ymchwiliadau disgyblu yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn yr Adroddiad cyntaf er Budd y Cyhoedd.

**3.** Cyhoeddwyd adroddiad yr Arolygiad Arbennig ym mis Ionawr 2014[4] a daeth i'r casgliad bod cyfuniad o nifer o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol o ran gwella ei drefniadau llywodraethu, roedd yn rhy gynnar i ddod i'r casgliad y gallai'r gwelliannau hyn barhau.

**4.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol wyth o argymhellion yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig. Nodir y rhain yn Atodiad 1. Gwnaeth yr Archwilydd Penodedig gyfres o argymhellion hefyd yn ei ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd. Nodir y rhain yn Atodiad 2.

**5.** Yn ystod mis Hydref 2014, cynhaliwyd adolygiadau gennym er mwyn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig a'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig yn ei ail Adroddiad er Budd y Cyhoedd.
- Asesu cynnydd y Cyngor ers yr Arolygiad Arbennig o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig yn ei Adroddiad cyntaf er Budd y Cyhoedd.
- Gwneud gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor ers yr Arolygiad Arbennig o ran mynd i'r afael â'r pedwar cynnig ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad thematig o Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu a gynhaliwyd yn 2011.

---

[1] Archwiliad o gyfrifon 2012-13 Adroddiad er Budd y Cyhoedd

[2] Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2013

[3] Lwfansau Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Gwyliau Blynyddol Prif Swyddogion – Adroddiad er Budd y Cyhoedd

[4] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Arolygiad Arbennig 2013-14

- Cynnig asesiad llinell sylfaen o gynnydd y Cyngor o ran datblygu'r ffordd y mae'n hunanwerthuso. Mae hwn yn adolygiad nas cwblhawyd yn ein Rhaglen Waith Reoleiddiol ar gyfer 2013-14.

**6.** Ein casgliad cyffredinol yw bod **y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig a'r Adroddiadau er Budd y Cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon o hyd ynglŷn â'r lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol a gwella meysydd eraill ymhellach, yn enwedig craffu.**

**7.** Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n hargymhellion. Dylai rhai o'r argymhellion sydd eto i'w rhoi ar waith gael eu cwblhau yn ystod y tri neu bedwar mis nesaf. Mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â meysydd eraill yn llawnach, megis Archwilio Mewnol, craffu, hunanwerthuso, a datblygu strategaeth Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu.

**8.** Rydym wedi gwneud rhai cynigion newydd ar gyfer gwella ac un argymhelliad. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau isod. Nodir ein hasesiad manwl o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â phob un o'n hargymhellion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n hargymhellion ond mae angen iddo wneud penderfyniad cyfreithlon o hyd ynglŷn â'r lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol

**9.** Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys dros 20 o argymhellion neu ffrydiau gwaith ynghyd â 90 o gamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr Arolygiad Arbennig a'r ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd, ac atgyfnerthu meysydd llywodraethu eraill. Mae tua 80 y cant o'r camau gweithredu hyn wedi eu cwblhau.

**10.** Mae'r Cyngor wedi egluro ac wedi atgyfnerthu rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae wedi datblygu canllawiau clir sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau ei gyrff a'i bwyllgorau allweddol. Mae pwerau i wneud penderfyniadau a dirprwyo yn glir ac nid oes gan y Tîm Rheoli Corfforaethol fel corff na chyfarfodydd Cabinet anffurfiol bwerau i wneud penderfyniadau.

**11.** Mae'r Cyngor wedi rhoi hyfforddiant i aelodau a swyddogion ar lywodraethu a phwerau i wneud penderfyniadau ac mae'n amlwg bod mwy o ymwybyddiaeth o'r rheolau a'r rheoliadau a chydymffurfiaeth â hwy. Mae swyddogion ac aelodau yn ceisio cyngor pan fo amheuaeth.

**12.** Mae Bwrdd y Rhaglen Gwella Llywodraethu wedi parhau i fod yn effeithiol o ran hyrwyddo'r gwaith o roi cynllun gweithredu Gwella Llywodraethu'r Cyngor ar waith. Mae wedi parhau i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r aelodau. Mae'r Cabinet wedi penderfynu parhau â'r Bwrdd nes ei fod wedi mynd i'r afael â phob cam gweithredu'n ddigonol a bod canfyddiadau'r gwaith dilynol ar yr Arolygiad Arbennig wedi cael eu rhannu â'r Cyngor.

13. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei bolisïau a'i weithdrefnau caffael ac mae proffil a rôl y swyddogaeth gaffael wedi cael eu gwella. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei lunio er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn sgil y gwiriad ffitrwydd i gaffael gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun gweithredu wedi cael ei ymgorffori yng nghynllun cyflawni'r gwasanaeth caffael. Mae'r Cyngor wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ynglŷn â chaffael, y cyflwynir adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Craffu.

14. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli risg ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau ac mae wedi gwella fformat y gofrestr risgiau. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol bob mis ac fe'i defnyddir i ysgogi trafodaeth ynglŷn â sut i fynd i'r afael â risgiau allweddol. Mae'r Cyngor wedi cysoni fformatau'r gofrestr risgiau gorfforaethol a chofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau a chaiff cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau eu hadolygu'n amlach yng nghyfarfodydd cyfarwyddiaethau a'r uwch dîm rheoli.

15. Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n deillio o'r ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd a cheir cynlluniau gweithredu ac amserlenni clir er mwyn mynd i'r afael â'r nifer fach o gamau gweithredu sydd eto i'w cymryd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad cyfreithlon eto ynglŷn â'r lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol. Rydym yn cynghori'r Cyngor i fynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo modd.

16. Gwnaeth y Cyngor ddiweddaru a chymeradwyo ei Gyfansoddiad diwygiedig ym mis Ionawr 2014. Mae'r Cyfansoddiad bellach yn cynnwys Protocol Hyfforddiant a Datblygu i Aelodau. Mae'r angen i aelodau a swyddogion ddatgan buddiannau wedi'i gynnwys ar agendâu pob un o bwyllgorau'r Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau craffu. Mae hyn yn cael ei ddarllen yn uchel eto ar ddechrau pob cyfarfod. Mae blaenraglen waith y Cabinet bellach yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Dylai rhai meysydd sydd eto i'w cwblhau gael eu cwblhau yn ystod yr ychydig fisodd nesaf

**17.** Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd eto i'w rhoi ar waith. Dylai llawer o'r argymhellion hyn sydd eto i'w rhoi ar waith gael eu rhoi ar waith yn ystod y tri neu bedwar mis nesaf.

**18.** Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn fwy eglur bellach a bydd y Cyngor yn mabwysiadu polisi newydd ynglŷn â chwythu'r chwiban a addaswyd o waith Public Concern at Work (PCAW)[5] yn ystod y ddau fis nesaf. Yna bydd angen i'r Cyngor lunio rhaglen i godi ymwybyddiaeth o'r polisi newydd hwn.

**19.** Bwriedir cyflwyno pleidleisio electronig a gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor ym mis Ionawr 2015. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o ansawdd adroddiadau ym mis Ionawr 2015.

**20.** Mae angen gwneud rhagor o waith i fireinio cerdyn sgorio cytbwys Adnoddau Dynol, a ddefnyddir i fonitro perfformiad y gwasanaeth. Mae cerdyn sgorio cytbwys wedi cael ei ddatblygu ac fe'i cofnodir ar system rheoli perfformiad y Cyngor, Ffynnon. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod y cerdyn sgorio yn cynnwys gormod o ddangosyddion a bod angen ei adolygu er mwyn cynnig cyfres fwy ystyrlon o fesurau. Hyd yma, bu'r pwyslais ar gasglu yn hytrach na gwerthuso'r data sydd ar gael. Mae'r gwasanaeth Adnodau Dynol yn bwriadu cynnal arolwg o gwsmeriaid er mwyn darparu rhagor o ddata ansoddol. Byddai'n fuddiol pe bai'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn ymgynghori ag aelodau portffolio a chraffu allweddol yn ogystal â'r Tîm Rheoli Corfforaethol ynglŷn â chyfansoddiad y cerdyn sgorio. Hyd yma cyfyngedig fu'r ymgynghori y tu allan i'r gwasanaeth Adnoddau Dynol.

[5] Elusen yw Public Concern at Work, sy'n cynghori unigolion, yn cynorthwyo sefydliadau ac yn llywio polisi cyhoeddus ynglŷn â threfniadau chwythu'r chwiban.

# Mae angen gwneud rhagor o waith i wella prosesau craffu, archwilio mewnol a hunanwerthuso; a datblygu strategaeth adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu

## Cymysg yw effeithiolrwydd ac effaith prosesau craffu ac mae angen cael eglurhad ynglŷn â'r rôl

**21.** Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu ng nghynllun gweithredu Gwella Craffu'r Cyngor wedi cael eu cwblhau'n llawn neu'n rhannol. Mae'n amlwg bod newidiadau gweithdrefnol i'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd craffu wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn erbyn hyn. Mae rhagor o hyfforddiant wedi cael ei roi i aelodau. Mae lefel ac ansawdd yr her gan aelodau wedi gwella ers y llynedd. Mae cyfarfodydd ymlaen llaw wedi cael eu trefnu bellach er mwyn rhoi cyfle i aelodau craffu drafod eitemau ar yr agenda a'r cwestiynau i'w gofyn ond cymysg yw barn Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ynglŷn â manteision y rhag-gyfarfodydd hyn. Mae aelodau craffu yn awyddus o hyd i ddatblygu eu rolau. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn rhaglen Her Craffu Gwent, a hwylusir gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

**22.** Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r swyddogion a gyfwelwyd gennym mai cyfyngedig yw effeithiolrwydd y prosesau craffu a bod y rôl wedi mynd yn ddryslyd. O arsylwi ar ddau bwyllgor craffu ategwyd y farn hon gennym. Mae cyfarfodydd yn hir iawn ac nid oes ffocws i'r agendâu. Nid yw'n amlwg bob amser pam bod eitemau'n cael eu hystyried na sut mae'r pynciau hyn yn ymwneud yn benodol â'r rôl graffu. Mae nifer o eitemau er gwybodaeth y gellid ymdrin â hwy mewn ffordd fwy effeithlon y tu hwnt i'r broses graffu ffurfiol. Mae cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, yn enwedig, yn eang iawn. Mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y pwyllgor craffu, gan fod yr amser a neilltuir ar gyfer eitemau ar yr agenda yn fwy cyfyngedig.

**23.** Mae angen i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n blaenoriaethu eitemau ar yr agenda er mwyn sicrhau y gall aelodau ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cyngor a'r meysydd lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf. Trafodwyd y mater hwn gan y Grŵp Arwain Craffu a drafftiwyd matrics blaenoriaethu er mwyn helpu i reoli rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn well. Caiff nifer o feini prawf eu defnyddio i bennu priodoldeb eitem. Mae'n bwysig bod y matrics hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ym mhob Pwyllgor Craffu.

**24.** Ar y cyfan, mae aelodau'n teimlo bod safon adroddiadau swyddogion yn dda. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei thrafod a'i herio'n rheolaidd mewn Pwyllgorau Craffu. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu wedi awgrymu sut y gellid gwella adroddiadau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth ansoddol, hanesyddol a chymharol. Rydym ar ddeall bod y Cyngor wrthi'n adolygu pa wybodaeth am berfformiad y dylai Pwyllgorau Craffu ei hystyried.

25. Cynhaliwyd cyfarfodydd pwyllgorau craffu arbennig i ystyried yr arbedion y mae angen eu gwneud er mwyn ateb y diffyg cyllidebol. Defnyddiwyd grwpiau gorchwyl a gorffen yn y gorffennol hefyd. Byddai'n fuddiol pe bai'r Cyngor yn defnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen yn amlach i adolygu materion penodol yn fanylach.

26. Mae'r Cyngor wedi rhoi rhagor o hyfforddiant ar reoli risg i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Bu hyn yn ailadrodd y sesiwn hyfforddiant gyflwyniadol a gynhaliwyd y llynedd yn y bôn. Ni roddwyd hyfforddiant 'ychwanegol' yn unol â'n hargymhelliad. Mae'r Cyngor o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Archwilio roi'r hyfforddiant hwn ar waith bellach. Yna caiff anghenion hyfforddiant pellach eu cadarnhau ar ôl i'r dadansoddiad nesaf o anghenion hyfforddiant gael ei gynnal. Nid oes unrhyw raglen hyfforddiant barhaus ac mae angen i'r Cyngor sicrhau bod rhaglen o'r fath yn cael ei rhoi ar waith a'i gweithredu. Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn bwriadu ehangu'r hyfforddiant i aelodau craffu hefyd fel rhan o'i raglen gwella llywodraethu ehangach.

## Mae'r Cyngor yn dechrau mynd i'r afael ag agweddau ar ein hargymhellion i wella Archwilio Mewnol ond nid oes ganddo gynllun gweithredu cadarn i sicrhau y gall olrhain cynnydd

27. Bellach mae Siarter Archwilio Mewnol a Strategaeth Archwilio Mewnol wedi'u diweddaru ar waith ar ôl trafodaeth gyda'r Pwyllgor Archwilio. Yr her allweddol sy'n wynebu'r Cyngor yw sicrhau y caiff y rhain eu rhoi ar waith bellach.

28. Mae Archwilio Mewnol yn fwy clir ynglŷn â'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae ffurf y Cynllun Archwilio Mewnol yn datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys adolygiadau o risgiau gweithredol mwy strategol ac ehangach, megis Safon Ansawdd Tai Cymru, ond erys ei brif ffocws ar feysydd ariannol.

29. Nid yw'r Cyngor eto wedi asesu ei hun yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2013. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bwriedir gwneud hyn fel rhan o ymarfer ar y cyd â chynghorau cyfagos yn 2015.

30. Canfu adolygiad o bapurau gwaith Archwilio Mewnol fod lle i wella o hyd o ran lefel yr adolygiad ac ansawdd dogfennaeth.

31. Mae angen rhoi cynllun gweithredu mwy cadarn ar waith er mwyn sicrhau'r gwelliannau a awgrymwyd yn ein hadroddiad ar yr Arolygiad Arbennig. Dylai hyn gael ei fonitro'n rheolaidd gan swyddogion ac aelodau. Ceir risg y gall y Cyngor golli golwg ar yr angen i barhau i wella Archwilio Mewnol.

## Nid yw'r Cyngor yn gwireddu manteision yr agweddau strategol ar adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu eto er i gynnydd sylweddol gael ei wneud o ran datblygu polisïau sy'n ymwneud ag adnoddau dynol er mwyn hwyluso'r broses o roi cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor ar waith

**32.** O ran adnoddau dynol, yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu nifer o adnoddau a pholisïau ynglŷn â'r gweithlu a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau'r lefel o arbedion sydd ei hangen yn unol â'i Gynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig, a chytuno arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau ynglŷn â diswyddo gwirfoddol, diswyddo gorfodol ac ymddeol yn gynnar.

**33.** Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor strategaeth adnoddau dynol a chynllun gweithredu y cytunwyd arnynt na chynllun integredig i'r gweithlu, er gwaethaf ein hargymhelliad i wneud hyn dair blynedd yn ôl, a atgyfnerthwyd yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig y llynedd. Mae angen i uwch swyddogion gytuno ar ddiben a buddiannau strategaeth adnoddau dynol a chynllun i'r gweithlu, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â ffurf y sefydliad yn y dyfodol. Bu diffyg ymdrech gorfforaethol i sicrhau y caiff y rhain eu datblygu.

**34.** Cynhaliwyd cynlluniau peilot ar gyfer cynllunio'r gweithlu ond roedd dau o blith pedwar o'r cynlluniau peilot hyn yn gofyn am gryn waith ar ddiweddaru data'r gweithlu ar system Adnoddau Dynol/cyflogres y Cyngor, iTrent. Mae materion o ran cynllunio'r gweithlu wedi cael eu hystyried gan wasanaethau unigol fel rhan o'r broses o nodi arbedion posibl. Cydnabyddir y bydd anghenion y gweithlu yn wahanol o bosibl ar gyfer pob gwasanaeth. Datblygwyd pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu i'w ddefnyddio ar y cyd ag adnoddau dynol ar gyfer y meysydd hynny lle y ceir y problemau mwyaf dybryd o ran y gweithlu. Mae rhai cwestiynau ynglŷn â chynllunio'r gweithlu wedi cael eu cynnwys yn fformat y Cynllun Cyflawni Gwasanaethau a fydd yn helpu i sicrhau cysondeb a hwyluso'r gwaith o fonitro'r broses weithredu.

**35.** Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn monitro gwybodaeth adnoddau dynol megis: niferoedd staff; absenoldeb oherwydd salwch; rheoli swyddi gwag; defnyddio staff asiantaeth. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol hefyd yn goruchwylio materion recriwtio a'r ffordd y gweithredir polisïau adnoddau dynol er mwyn hwyluso'r broses o weithredu Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Fel y cyfryw, ystyrir y gwaith o gynllunio'r gweithlu ar lefel uwch a gweithredol er mwyn helpu i ateb yr heriau a wyneba'r Cyngor o ganlyniad i ostyngiadau cyllidebol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon am gynllunio'r gweithlu wedi cael ei dadansoddi na'i chyfuno'n ddogfen gorfforaethol y gallai'r Cyngor ei defnyddio i lywio ei waith cynllunio strategol.

**36.** Er bod swyddogion yn teimlo nad yw diffyg strategaeth adnoddau dynol na chynllun i'r gweithlu wedi amharu ar waith cynllunio, mae'r pwysau a wynebir gan y Cyngor cymaint fel ei bod yn bwysicach nag erioed fod ganddo strategaeth adnoddau dynol a chynllun gweithredu cadarn er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu cynllunio a'u defnyddio'n effeithiol.

**37.** Byddai strategaeth adnoddau dynol yn nodi sut y bydd y Cyngor yn defnyddio ei staff i fodloni ei flaenoriaethau corfforaethol. Byddai'n cadarnhau cyfres o ganllawiau neu egwyddorion a gâi eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â recriwtio a chadw staff. Byddai hefyd yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan gyflogeion a'r hyn y gallai cyflogeion ei ddisgwyl gan y Cyngor; ei werthoedd cyflogaeth. Byddai'r cynllun gweithredu yn nodi'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni hyn a rôl a ffurf y gwasanaeth adnoddau dynol ar gyfer hwyluso hyn.

**38.** Dylai gwaith cynllunio'r gweithlu fod yn rhan annatod o'r broses reoli strategol. Byddai'n galluogi'r Cyngor i nodi ei ofynion sefydliadol a'i gyflenwad o adnoddau dynol â sgiliau addas er mwyn helpu i gyflawni ei amcanion sefydliadol. Bydd gwaith effeithiol ar gynllunio'r gweithlu yn cadarnhau'r hyn y gall y Cyngor ei wneud nawr er mwyn bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

**39.** Hyd yma, mae'r Cyngor wedi llwyddo i osgoi diswyddo niferoedd sylweddol o staff yn orfodol drwy reoli swyddi gwag, cyfraddau ymadael ac adleoli. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen trawsnewid y gweithlu er mwyn sicrhau arbedion amcangyfrifedig o £39 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i waith strategol ar gynllunio'r gweithlu fynd law yn llaw ag adolygu'r ffordd y darperir gwasanaethau.
Gall cynllunio'r gweithlu'n effeithiol arwain at arbedion sylweddol a gall hefyd esgor ar fanteision eraill: gweithlu mwy ystwyth sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau gorau i ddinasyddion ac sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar y gwelliant economaidd yn y pen draw.

## Mae'r Cyngor wedi mynd ati i weithredu hunanwerthuso mewn ffordd gytbwys ond nid yw wedi cytuno ar ddiben hunanwerthuso eto, ac mae'n dal yn aneglur sut y caiff ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio corfforaethol, gwasanaethau ac ariannol

**40.** Nid oes gan y Cyngor ddull corfforaethol o hunanwerthuso. Ar ôl gwerthuso nifer o gynlluniau peilot, ystyriwyd na fyddai templed corfforaethol yn briodol. Gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), datblygodd y Cyngor gyfres o egwyddorion allweddol a phum cwestiwn, a ddefnyddiwyd gan bob gwasanaeth er mwyn gwerthuso ei hun. Roedd ansawdd a manylder yr hunanwerthusiadau a gwblhawyd yn amrywio. Er i ganllawiau a gweithdai gael eu darparu, roedd llawer o'r hunanwerthusiadau hefyd yn ddisgrifiadol yn hytrach na gwerthusol. Ni chafodd yr aelodau eu cynnwys o gwbl yn y broses o gwblhau'r hunanwerthusiadau.

**41.** Nid yw swyddogion wedi bod yn glir ynglŷn â diben cynnal hunanwerthusiadau. Nid ydynt yn cael eu defnyddio i lywio Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, er enghraifft. Cynhaliwyd hunanwerthusiadau hefyd ar wahân i'r broses o gynllunio gwasanaethau. Er bod y Cyngor wedi bwriadu cynnal sesiynau herio, lle y câi gwasanaethau eu herio ynglŷn â chynnwys eu hunanwerthusiadau, cafodd y rhain eu gohirio dros dro.

42. Er bod diffyg eglurder ynglŷn â'r ffordd ymlaen, rydym ar ddeall y cytunwyd ar dempled hunanwerthuso diwygiedig newydd yn ddiweddar, a gaiff ei integreiddio â'r cylch cynllunio blynyddol ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae'r templed hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cymharu ag eraill o ran ansawdd, canlyniadau, allbynnau a chost. Bydd y Prif Weithredwr Dros Dro ac Aelod y Cabinet dros Reoli Perfformiad yn cyfarfod â phob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth hefyd er mwyn herio'r hunanwerthusiadau. Mae angen i'r Cyngor gytuno ar ddiben hunanwerthuso, ei ddull gweithredu a sut y caiff hunanwerthusiadau eu defnyddio i lywio ei waith cynllunio cyn i'r broses o gynllunio gwasanaethau ddechrau. Byddem yn disgwyl i'r hunanwerthusiadau ddylanwadu ar ei Gynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig a'i gynllun i'r gweithlu.

## Argymhellion

43. I helpu'r Cyngor i wneud y gwelliannau gofynnol, rydym wedi nodi argymhelliad yn y tabl isod. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad ar unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad hwn, a'i amserlen arfaethedig ar gyfer cymryd y camau hynny. Rhaid paratoi hwn o fewn 30 diwrnod i gael yr adroddiad hwn.

44. Argymhellwn y canlynol:

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon ynglŷn â lwfansau ar gyfer gwyliau blynyddol a defnyddwyr ceir hanfodol. |

## Cynigion ar gyfer gwella

45. Rydym wedi nodi'r cynigion canlynol ar gyfer gwella:

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor adolygu rôl ac effeithiolrwydd ei bwyllgorau craffu. Mae angen i eitemau ar yr agenda gael eu blaenoriaethu'n well ac mae angen ystyried dulliau eraill o ymdrin ag eitemau er gwybodaeth yn unig er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gall gael yr effaith fwyaf. |
| C2 | Gallai'r Cyngor ystyried cynnwys tabl cryno o'r holl benderfyniadau a wnaed ar ddiwedd cyfnodion y Tîm Rheoli Corfforaethol gan nodi pwy wnaeth y penderfyniad a phwy sy'n gyfrifol am ei gofnodi yn y cofnod o benderfyniadau. Pan fydd y Tîm Rheoli Corfforaethol o'r farn bod penderfyniad yn 'weinyddol' ac nad oes angen ei gofnodi, dylid nodi hyn hefyd. |
| C3 | Dylai'r Cyngor ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth o'i bolisi ynglŷn â chwythu'r chwiban ymhlith staff a rhoi rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar waith er mwyn gwneud hynny. |

| | |
|---|---|
| C4 | Dylai'r Cyngor ddiwygio cerdyn sgorio cytbwys adnoddau dynol. Dylid ymgynghori ag aelodau a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ynghylch cynnwys y cerdyn sgorio. |
| C5 | Dylai'r Cyngor ddatblygu rhaglen o hyfforddiant parhaus ar reoli risg i'r aelodau gan ystyried canlyniadau ei ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant aelodau. |
| C6 | Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun gweithredu cadarn ar gyfer gwella Archwilio Mewnol. Dylai hwn ystyried canlyniad yr hunanasesiad yn erbyn y Safonau Archwilio Mewnol Cyhoeddus. Mae angen cytuno ar ddulliau adrodd a monitro er mwyn cynnal y momentwm. |
| C7 | Dylai'r Cyngor flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu strategaeth adnoddau dynol a chynllun i'r gweithlu. Dylai'r rhain fod yn elfennau allweddol o fframwaith cynllunio strategol y Cyngor. |
| C8 | Mae angen i'r Cyngor gytuno ar ddiben hunanwerthuso a sut y caiff hyn ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio corfforol, gwasanaethau ac ariannol a sicrhau bod y broses y mae'n ei mabwysiadu yn ei alluogi i wneud hyn yn effeithiol. |

# Atodiad 1

## Argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol yr wyth argymhelliad canlynol yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2014:

| | |
|---|---|
| A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol rhai'r Cabinet; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; cyfarwyddwyr corfforaethol; pwyllgorau craffu; a'r Pwyllgor Archwilio. |
| A2 | Sicrhau y caiff pob penderfyniad a wneir, a chan bwy ei ddogfennu'n briodol, er mwyn rhoi sicrwydd pellach bod penderfyniad yn cael ei wneud mewn ffordd briodol a thryloyw. |
| A3 | Parhau i roi cynllun gweithredu Bwrdd y Rhaglen Gwella Llywodraethu ar waith er mwyn gwella trefniadau llywodraethu yn y dyfodol. |
| A4 | Atgyfnerthu ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn ymgorffori rheoli risg drwy'r Cyngor cyfan. Yn benodol:<br>• dylai'r gofrestr risgiau gorfforaethol gael ei hadolygu'n amlach gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;<br>• dylai fod gwaith cynllunio camau gweithredu penodol ar gyfer y risgiau allweddol a nodwyd;<br>• dylid goruchwylio'n fanylach sut yr ymdrinnir â chofrestrau risg cyfarwyddiaethau a chysondeb o ran hynny;<br>• dylid egluro rôl a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg; a<br>• dylid rhoi hyfforddiant ychwanegol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. |
| A5 | Egluro rolau a chyfrifoldebau am weithdrefnau chwythu'r chwiban a sicrhau y caiff y polisi newydd ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. |
| A6 | Ailasesu'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a rhoi rhaglen ar waith ar gyfer ei wasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad hwn. |
| A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd i wella'r swyddogaeth adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu yn cael eu cymryd. |
| A8 | Pwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a sicrhau y caiff dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol eu gosod ar gyfer y swyddogaeth gaffael. |

# Atodiad 2

## Argymhellion a wnaed yn y ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd

Gwnaeth yr Archwilydd Penodedig yr argymhellion canlynol yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd dyddiedig Mawrth 2013:

**Hysbysebu cyfarfodydd**

A1 Dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau ar gyfer hysbysebu cyfarfodydd. Dylid cyflwyno rheolaethau i liniaru'r risg y caiff unrhyw wybodaeth ei hepgor. Er enghraifft, gallai swyddog sy'n annibynnol ar y swyddog sy'n paratoi'r hysbysebion adolygu'r hysbysebion hynny er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw wybodaeth a hepgorwyd.

**Gwrthdaro buddiannau**

A2 Dylid llunio canllawiau clir a'u cynnwys yng nghylch gorchwyl pob fforwm sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor o ran y gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion lle y gallai buddiant ariannol neu fuddiant personol yng nghanlyniad unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud ddylanwadu ar aelodau, neu'r rheini sy'n bresennol mewn fforymau o'r fath. Yn arbennig, dylent bwysleisio na ddylai unigolion o'r fath gymryd rhan yn y broses honno ac:

- y dylent ddatgan buddiant yn y mater;
- y dylent adael y cyfarfod pan gaiff y mater ei drafod mewn unrhyw ffordd; ac
- na ddylent fod yn llwyr gyfrifol am wneud argymhellion mewn perthynas â'r mater, pa un a fyddant yn bresennol ai peidio.

**Gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau newydd**

A3 Pan gaiff pwyllgorau newydd neu gyrff eraill newydd sy'n gwneud penderfyniadau eu sefydlu gan y Cyngor, dylid llunio cylch gorchwyl clir yn nodi pwerau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau'r corff. Dylai'r pwyllgor eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod ei gyfarfod cyntaf.
Dylid hefyd hyfforddi aelodau o ran gofynion y pwyllgor cyn ei gyfarfod cychwynnol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cylch gorchwyl.

**Cofnodion cyfarfodydd**

A4 Dylai cofnodion cyfarfodydd fod yn ddigon manwl i roi gwybodaeth am y materion a drafodwyd. Dim ond i ymdrin ag unrhyw eitemau eithriedig y dylid gwneud unrhyw waith golygu. Ar gyfer materion sensitif, dylid cynnwys cofnod o unrhyw bleidlais a gynhaliwyd a nodi p'un a oedd y bleidlais yn unfrydol ai peidio, er mwyn i'r aelodau allu cytuno â chywirdeb y cofnodion cyn eu cymeradwyo.

**Eglurder a chyflawnder adroddiadau i bwyllgorau**

A5 Lle y gwneir gwaith adolygu, naill ai gan gorff allanol neu'n fewnol, i ategu adroddiad i bwyllgor neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau, dylai'r adroddiad cysylltiedig ymdrin yn benodol â'r materion a godwyd fel rhan o'r gwaith adolygu.

Gwnaeth yr Archwilydd Penodedig yr argymhellion canlynol yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Lwfans Gwyliau Blynyddol Prif Swyddogion ym mis Rhagfyr 2013:

**Cofnodion o benderfyniadau**

A1 Dylai cofnodion clir o'r holl benderfyniadau gael eu cadw, gan nodi'r penderfyniad a wnaed, pwy a wnaeth y penderfyniad a phryd y cafodd y penderfyniad ei wneud. At hynny, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, dylid rhoi ystyriaeth briodol i b'un a ddylai'r penderfyniadau hyn gael eu cofnodi yng nghofnod penderfyniadau'r Cyngor. Dylai'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu.

**Gweithredu penderfyniadau**

A2 Ni ddylai swyddogion weithredu penderfyniadau oni bai eu bod yn gwybod pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad. Dylai swyddogion gadw tystiolaeth o'r ystyriaeth hon.

**Cyngor swyddog statudol**

A3 Wrth wneud penderfyniadau, dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried a oes angen ceisio barn ffurfiol y Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro ac a yw'r farn hon wedi'i rhoi. Pan fo angen barn ffurfiol, dylai proses fod ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar y swyddog statudol er mwyn iddo roi'r farn honno. Dylai swyddogion hefyd gofnodi sut y cafodd y cyngor hwn ei ddilyn.

**Adroddiadau**

A4 Dylai adroddiadau a lunnir i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ddilyn fformat safonol, gan nodi'n benodol awdur yr adroddiad a phwy yr ymgynghorwyd ag ef. Dylai adroddiadau gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r opsiynau sydd ar gael.

# Atodiad 3

## Canfyddiadau manwl dilynol – grid tystiolaeth

### Gwaith dilynol ar argymhellion yr Arolygiad Arbennig

Mae’r tabl isod yn nodi canfyddiadau ein gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Arolygiad Arbennig 2014 ym mis Ionawr:

| **Argymhelliad** | | **Crynodeb o ganfyddiadau** | **Asesiad o b’un a yw wedi’i gwblhau** |
|---|---|---|---|
| AA – A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol y canlynol; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; cyfarwyddwyr corfforaethol; pwyllgorau craffu; a’r Pwyllgor Archwilio. | Mae gan y Cyngor dudalen benodol ar ei fewnrwyd ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. Mae hon yn nodi dogfennaeth allweddol mewn un man mewn perthynas â’r Cod Ymddygiad sy’n llywodraethu’r ffordd y mae’r Cyngor yn gweithredu.<br>Mae’r ddogfen *An Introduction to Decision Making* yn nodi cyfrifoldebau’r cyrff gwahanol sy’n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn ffordd glir a chryno:<br>• Cyngor llawn<br>• Cabinet<br>• Swyddogion<br>• Pwyllgorau cynllunio a thrwyddedu<br>• Pwyllgor Archwilio<br>• Pwyllgorau craffu<br>Mae tudalen 7 o’r ddogfen *Call in Guidance* yn rhoi diagram defnyddiol sy’n dangos y cydberthnasau rhwng cyrff allweddol sy’n gwneud penderfyniadau a threfniadau craffu.<br>Cytunodd cyfweleion fod swyddogion ac aelodau yn deall y broses o wneud penderfyniadau’n well. Yn benodol, nid yw’r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gwneud penderfyniadau ond mae penderfyniadau gan swyddogion yn cael eu gwneud o dan awdurdod dirprwyedig gan swyddogion unigol. | Aed i’r afael â’r argymhelliad, ac eithrio o ran craffu lle mae cynnig newydd ar gyfer gwella wedi cael ei wneud. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol y canlynol; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; cyfarwyddwyr corfforaethol; pwyllgorau craffu; a'r Pwyllgor Archwilio. | Nododd aelodau a swyddogion fod rolau'r gwahanol gyrff yn llawer mwy eglur erbyn hyn. Yr eithriad yw craffu lle roedd rhai swyddogion yn pryderu ynglŷn â rôl, effaith ac effeithiolrwydd trefniadau craffu.<br>O arsylwi ar ddau bwyllgor craffu ategwyd y pryder hwn gennym.<br>Mae agendâu'n rhy hir ac nid oes ffocws iddynt. Nid yw'n glir pam bod eitemau penodol yn cael eu trafod na pha effaith y gall craffu ei chael mewn perthynas â'r rhain.<br>Nododd swyddogion fod nifer yr adroddiadau y gofynnodd aelodau amdanynt wedi cynyddu'n sylweddol.<br>Gwnaethom arsylwi ar Bwyllgorau Craffu lle roedd adroddiadau y gofynnodd aelodau unigol amdanynt ar yr agenda, ond nid oedd yr aelod a oedd wedi gofyn am yr adroddiad yn bresennol yn y cyfarfod.<br>Er bod lefel ac ansawdd y cwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau yn dda a bod hynny wedi gwella ers y llynedd, roedd yn amlwg bod materion lleol a phlwyfol yn cael eu codi hefyd.<br>Mae angen i'r Cyngor ystyried sut y gellir ymdrin â'r ceisiadau ychwanegol hyn am wybodaeth mewn ffordd wahanol a thrwy hynny ryddhau amser y pwyllgorau craffu i ganolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth. Byddai'n fuddiol pe bai'r Cyngor yn defnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen yn amlach i adolygu materion penodol yn fanylach. | Aed i'r afael â'r argymhelliad, ac eithrio o ran craffu lle mae cynnig newydd ar gyfer gwella wedi cael ei wneud. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol y canlynol; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; cyfarwyddwyr corfforaethol; pwyllgorau craffu; a'r Pwyllgor Archwilio. | Mae angen adolygu sut y caiff eitemau ar yr agenda eu blaenoriaethu. Roedd cyfarfodydd yn rhy hir, gan gyfyngu ar yr amser y gellid ei neilltuo i eitemau. Roedd eitemau allweddol a oedd yn amlwg o fewn cylch gwaith y pwyllgor Fcraffu yn aml yn codi tua diwedd yr agenda ee, codi taliadau am deleofal a thrafod y strategaeth hamdden. Mae matrics blaenoriaethu wedi cael ei ddrafftio ac mae ar fin cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol. Caiff eitemau eu hystyried a'u sgorio yn erbyn cyfres o feini prawf er mwyn pennu pa mor berthnasol ydynt.<br>Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn rhaglen Her Craffu Gwent a hwyluswyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, sy'n cynnwys herio gan gymheiriaid ac arsylwi. Caiff canfyddiadau'r rhaglen hon eu defnyddio i lywio pa feysydd i'w gwella a gaiff eu cynnwys yng nghynllun gweithredu Gwella Craffu. | Aed i'r afael â'r argymhelliad, ac eithrio o ran craffu lle mae cynnig newydd ar gyfer gwella wedi cael ei wneud. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A2 | Sicrhau y caiff dogfennaeth briodol ei chadw o bob penderfyniad a wnaed a chan bwy er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol a thryloyw. | Mae'r ddogfennaeth a adolygwyd yn dangos bod canllawiau clir o ran pa ddogfennaeth y mae angen ei pharatoi er mwyn cofnodi penderfyniadau a wneir yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol neu gan swyddogion o dan gynllun pwerau dirprwyedig.<br>Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion fod mwy o gydymffurfiaeth â chanllawiau a gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br>Fodd bynnag, nododd adolygiad o gofnodion y Tîm Rheoli Corfforaethol rai anghysonderau yn y ffordd y cafodd penderfyniadau eu dogfennu. Mae rhai penderfyniadau yn nodi'n glir iddynt gael eu gwneud gan swyddog penodol o dan ei bwerau dirprwyedig, neu'n nodi bod y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cymeradwyo adroddiad/penderfyniad i'w gyfeirio at y Cabinet am benderfyniad terfynol. Fodd bynnag, cafwyd nifer fach o benderfyniadau lle nad oedd yn glir pwy a wnaeth y penderfyniad, ac mae'r cofnodion yn awgrymu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol wneud y penderfyniad ar y cyd.<br>Gallai'r Cyngor ystyried cynnwys tabl cryno syml o bob penderfyniad ar ddiwedd cofnodion y Tîm Rheoli Corfforaethol yn nodi pwy a wnaeth y penderfyniad a phwy sy'n gyfrifol am ei gofnodi yn y cofnod o benderfyniadau. Pan fydd y Tîm Rheoli Corfforaethol o'r farn bod penderfyniad yn 'weinyddol' ac nad oes angen ei gofnodi, dylid nodi hyn hefyd.<br>Mae sampl o benderfyniadau y cofnodwyd iddynt gael eu gwneud gan unigolion yn cytuno â hysbysiadau am benderfyniadau.<br>Nododd aelodau a swyddogion a gyfwelwyd fod mwy o ymwybyddiaeth o'r rheolau ynglŷn â gwneud penderfyniadau a mwy o barodrwydd i geisio cyngor pan fo amheuaeth. Atgyfnerthwyd hyn gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro a dynnodd sylw at y cynnydd yn nifer yr ymholiadau a oedd wedi dod i law. | Aed i'r afael â'r argymhelliad, ond mae cynnig newydd ar gyfer gwella wedi cael ei wneud yn awgrymu y dylid cynnwys tabl yng nghofnodion y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n crynhoi'r penderfyniadau a wnaed a chan bwy. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b’un a yw wedi’i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A3 | Parhau i roi cynllun gweithredu Bwrdd y Rhaglen Gwella Llywodraethu ar waith er mwyn gwella trefniadau llywodraethu yn y dyfodol. | Mae’r Bwrdd wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.<br>Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn i’r Cabinet ar 2 Hydref. Cytunwyd yn y cyfarfod hwn o’r Cabinet y dylai’r Bwrdd barhau er mwyn monitro’r camau gweithredu a oedd eto i’w cymryd. Yn wreiddiol, gwnaeth y Bwrdd argymhelliad i’r Cabinet y dylai’r argymhellion a oedd yn weddill gael eu monitro drwy drefniadau amgen.<br>Gwrthodwyd hyn gan y Cabinet a oedd am gadw’r Bwrdd nes ei fod wedi mynd i’r afael yn ddigonol â phob cam gweithredu a bod canfyddiadau’r gwaith dilynol ar yr Arolygiad Arbennig wedi cael eu rhannu â’r Cyngor.<br>Cytunodd yr aelodau a’r swyddogion fod y Bwrdd wedi bod yn effeithiol o ran codi proffil llywodraethu ac ymateb yn ddi-oed i bryderon ynglŷn â llywodraethu.<br>Mae gan y Bwrdd y lefel briodol o aelodaeth gan gynnwys cynrychiolaeth gan aelodau.<br>Dulliau adrodd a monitro wedi’u sefydlu drwy adroddiadau rheolaidd i’r Cabinet, y Cyngor, y Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Pwyllgor Archwilio.<br>Adborth wedi’i raeadru drwy’r Tîm Rheoli Corfforaethol a’r uwch dimau rheoli. | Aed i’r afael â’r argymhelliad. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b’un a yw wedi’i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A4 | Atgyfnerthu ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn ymgorffori rheoli risg drwy’r Cyngor cyfan. Yn benodol:<br>• dylai’r gofrestr risgiau gorfforaethol gael ei hadolygu’n amlach gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;<br>• dylai fod gwaith cynllunio camau gweithredu penodol ar gyfer y risgiau allweddol a nodwyd;<br>• dylid goruchwylio’n fanylach sut yr ymdrinnir â chofrestrau risg cyfarwyddiaethau a chysondeb o ran hynny;<br>• dylid egluro rôl a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg; a<br>• dylid rhoi hyfforddiant ychwanegol i aelodau’r Pwyllgor Archwilio. | Dangosodd tystiolaeth o’r adolygiad o gofnodion cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol y caiff y gofrestr risgiau gorfforaethol ei hystyried yn fisol. Mae’r cofnodion yn dogfennu bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystyried statws risg y risgiau a nodwyd eisoes ac a yw camau gweithredu a gymerwyd wedi newid statws y risg.<br>Dengys y cofnodion hefyd fod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn gofyn am i unrhyw risgiau sydd newydd eu nodi i’w ychwanegu at y gofrestr gael eu hystyried.<br>Mewn cyfweliadau â’r Tîm Rheoli Corfforaethol cytunwyd bod trafodaeth gadarn ynglŷn â risgiau a, thrwy adolygu’r gofrestr risg, fod trafodaethau manwl yn cael eu hysgogi ynglŷn â risgiau allweddol megis SATC a gwastraff, a’r camau gweithredu i’w cymryd i fynd i’r afael â’r rhain. | Aed i’r afael â’r argymhelliad. |
| | | Atgyfnerthwyd fformat y gofrestr risgiau. | Aed i’r afael â’r argymhelliad. |
| | | Mae’r un fformat wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau ac elfennau risg yn fformat y cynllun darparu gwasanaethau.<br>Dangosodd cyfweliadau a thystiolaeth fod cyfarwyddiaethau bellach yn adolygu cofrestrau risgiau’n rheolaidd ar lefel uwch dimau rheoli. Caiff risgiau eu monitro hefyd ar lefel pwyllgorau craffu drwy fonitro cynlluniau gwasanaethau. | Aed i’r afael â’r argymhelliad. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A4 | Atgyfnerthu ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn ymgorffori rheoli risg drwy'r Cyngor cyfan. Yn benodol:<br>• dylai'r gofrestr risgiau gorfforaethol gael ei hadolygu'n amlach gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;<br>• dylai fod gwaith cynllunio camau gweithredu penodol ar gyfer y risgiau allweddol a nodwyd;<br>• dylid goruchwylio'n fanylach sut yr ymdrinnir â chofrestrau risg cyfarwyddiaethau a chysondeb o ran hynny;<br>• dylid egluro rôl a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg; a<br>• dylid rhoi hyfforddiant ychwanegol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. | Cyflwynwyd dwy sesiwn hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio - ymddengys mai sesiwn 'cyflwyno' sylfaenol yw'r hyfforddiant hwn. Codwyd argymhelliad yn yr Arolygiad Arbennig y dylid rhoi hyfforddiant pellach I aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar lefel uwch.<br>Rydym ar ddeall i'r Pwyllgor Archwilio ofyn am drosolwg cyffredinol a chyflwyniad yn hytrach na hyfforddiant uwch. Gwnaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflwyno hyfforddiant rheoli risg i'r Pwyllgor Archwilio hefyd.<br>Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio drafod ei rôl yn fanwl yn ychwanegol at y wybodaeth a gafwyd yn y sleidiau cyflwyno. Ym marn y Pwyllgor roedd angen i'r Pwyllgor Archwilio roi'r hyfforddiant hwn ar waith bellach. Yna caiff yr effaith ei monitro a chaiff anghenion hyfforddiant yn y dyfodol eu hystyried yn y dadansoddiad nesaf o anghenion hyfforddiant aelodau. Nid oes rhaglen hyfforddiant barhaus. | Nid aed i'r afael â'r argymhelliad yn llawn. Codwyd cynnig newydd ar gyfer gwella: datblygu rhaglen o hyfforddiant parhaus ynglŷn â risg i'r aelodau gan ystyried canlyniadau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant aelodau. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A4 | Atgyfnerthu ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn ymgorffori rheoli risg drwy'r Cyngor cyfan. (Parhad) | Nodwyd y posibilrwydd o sefydlu Grŵp Rheoli Risg yn Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor. Ar ôl adroddiad gan y Pennaeth Perfformiad ac Eiddo, fe'i trafodwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a chytunodd y Pwyllgor Archwilio ar 10 Medi nad oedd angen y Grŵp Rheoli Risg mwyach gan fod trefniadau digonol eisoes ar waith a thybid bod y trefniadau monitro yn ddigonol. Ystyrir bod hyn yn rhesymol. | Nid aed i'r afael â'r argymhelliad yn llawn. Codwyd cynnig newydd ar gyfer gwella: datblygu rhaglen o hyfforddiant parhaus ynglŷn â risg i'r aelodau gan ystyried canlyniadau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant aelodau. |
| AI- A5 | Egluro rolau a chyfrifoldebau am weithdrefnau chwythu'r chwiban a sicrhau y caiff y polisi newydd ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. | Mae'r Cyngor wedi teilwra polisi enghreifftiol gan yr elusen PCAW. Mae'r polisi drafft yn fwy eglur ac yn symlach. Bwriedir iddo gael ei fabwysiadu ym mis Tachwedd neu ym mis Rhagfyr eleni.<br>Câi'r polisi newydd ei lansio yn y Flwyddyn Newydd a rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd iddo a rhoi hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oes rhaglen ar waith i wneud hyn.<br>Y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer chwythu'r chwiban fydd y Pennaeth Adnoddau Dynol, neu'r Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro os dymunir. Mae personau dynodedig eraill yn cynnwys PCAW a'r Archwilydd Cyffredinol.<br>Ni phenderfynwyd eto sut y rhoddir gwybod am weithgarwch chwythu'r chwiban. | Yn mynd rhagddo ond caiff ei gwblhau yn ystod y ddau neu dri mis nesaf. Codwyd cynnig ar gyfer gwella: dylai'r Cyngor ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth o'i bolisi ynglŷn â chwythu'r chwiban ymhlith staff a rhoi rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar waith er mwyn gwneud hynny. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A6 | Ailasesu'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a rhoi rhaglen ar waith ar gyfer ei wasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad hwn. | Mae Siarter a Strategaeth Archwilio Mewnol ar waith ac mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'u trafod ac wedi cytuno arnynt.<br>Mae Archwilio Mewnol yn fwy clir ynglŷn â'r gwelliannau sydd eu hangen ac mae'n treialu rhai o'r newidiadau sydd eu hangen. Mae newidiadau yn cael eu gwneud yn araf.<br>Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion/gwelliannau a wnaed yn adroddiad yr Arolygiad Arbennig yn fanwl iawn. Mae perygl y gallai'r Cyngor golli golwg ar y camau gweithredu y mae angen eu cymryd a'r cynnydd yn erbyn y rhain.<br>Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys rhai adolygiadau ehangach megis SATC ond parheir i ganolbwyntio ar feysydd ariannol.<br>Cyfyngedig fu'r ymgynghoriad/trafodaeth ynglŷn â rôl Archwilio Mewnol, yn bennaf â'r Swyddog Adran 151. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft, nad oedd wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaeth ar hyn.<br>Canfu adolygiad o bapurau gwaith Archwilio Mewnol fod lle i wella ymhellach. Roedd lefel y manylion a'r gweithgarwch adolygu yn annigonol.<br>Cytunodd y Tîm Rheoli Corfforaethol y byddai gwelliant yn cymryd amser. | Yn mynd rhagddo. Mae newidiadau'n cael eu gwneud yn raddol. Mae'r terfynau amser i'w cwblhau yn aneglur. Nid oes cynllun gweithredu cadarn. Codwyd cynnig ar gyfer gwella. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd i wella'r swyddogaeth adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu yn cael eu cymryd. | Mae cerdyn sgorio cytbwys adnoddau dynol wedi cael ei ddatblygu ac fe'i cofnodir ar Ffynnon. Mae'r cerdyn sgorio yn cynnwys nifer fawr o ddangosyddion. Roedd rheolwyr adnoddau dynol yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r cerdyn sgorio ond roedd ymgynghoriad ehangach yn gyfyngedig iawn.<br>Mae Adnoddau Dynol yn cydnabod bod angen adolygu'r cerdyn sgorio gan ei fod yn cwmpasu gormod o feysydd, nad yw rhai ohonynt yn ddefnyddiol i'r gwasanaeth. Canolbwyntir ar gasglu data yn hytrach na'u gwerthuso. Bwriedir adolygu'r cerdyn sgorio yn ystod cyfarfod tîm nesaf Adnoddau Dynol.<br>Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad yn erbyn y cerdyn sgorio i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau.<br>Mae Adnoddau Dynol hefyd yn cyflwyno adroddiadau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar faterion penodol sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol a hoffai Adnoddau Dynol raeadru'r math hwn o wybodaeth i'r cyfarwyddiaethau ee, gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch, adleoli a rheoli swyddi gwag.<br>Mae Adnoddau Dynol yn bwriadu cynnal arolwg cwsmeriaid cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn cael ychydig o ddata ansoddol i wella'r ffordd y caiff perfformiad y gwasanaeth ei adolygu.<br>Cymerodd Adnoddau Dynol ran yn yr ymarfer meincnodi ar y cyd â'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Gyflogres. Caiff hwn ei ddefnyddio i lywio hunanwerthusiad y gwasanaeth y flwyddyn nesaf. | Yn mynd rhagddo. Yn debygol o gael ei gwblhau yn ystod y ddeufis nesaf.<br>Codwyd cynnig newydd ar gyfer gwella i ddiwygio cerdyn sgorio cytbwys adnoddau dynol ac ymgynghori ag aelodau a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ynglŷn â chynnwys y cerdyn sgorio. |
| | | Mae'r swyddi gwag sy'n weddill ym maes Addysg wedi cael eu gwerthuso erbyn hyn. Bu oedi tan fis Medi 2014 cyn gwerthuso un swydd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch deiliad y swydd. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd i wella'r swyddogaeth adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu yn cael eu cymryd. | Nid ystyrir bod y cyfweliadau â swyddogion ac aelodau a awgrymwyd mewn strategaeth adnoddau dynol yn flaenoriaeth. Bu diffyg ymdrech gorfforaethol i sicrhau y caiff hyn ei ddatblygu. Mae angen i uwch swyddogion gytuno ar ddiben a buddiannau strategaeth adnoddau dynol, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â ffurf y sefydliad yn y dyfodol.<br>Gweithio ar fersiwn naw o'r strategaeth adnoddau dynol ddrafft ar hyn o bryd. Bu oedi cyn ei pharatoi tra canolbwyntiodd Adnoddau Dynol ar ddatblygu polisïau hyblygrwydd y gweithlu er mwyn hwyluso'r broses o roi'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig ar waith.<br>Ymgynghorwyd ynglŷn â'r Strategaeth Adnoddau Dynol yn fewnol o fewn y gwasanaeth Adnoddau Dynol ac ymgynghorir â'r grŵp Strategaeth Adnoddau Dynol ar hyn o bryd. Bwriedir cyflwyno'r strategaeth ddrafft gerbron y Tîm Rheoli Corfforaethol ar ôl i holl sylwadau'r grŵp Adnoddau Dynol ddod i law.<br>Cymysg yw effeithiolrwydd y grŵp strategaeth Adnoddau Dynol. Awgryma adolygiad o'r cofnodion y rhoddir cryn ystyriaeth i faterion gweithredol.<br>Un bwlch allweddol yw cymhwysedd rheoli. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi codi'r angen i fuddsoddi er mwyn datblygu rheolwyr gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol. | Yn mynd rhagddo. Caiff ei gwblhau o fewn chwe mis o bosibl ond mae'n dibynnu ar ymrwymiad ac ymdrech gorfforaethol ddigonol i wneud hyn. Codwyd cynnig newydd ar gyfer gwella. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b’un a yw wedi’i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd i wella’r swyddogaeth adnoddau dynol a chynllunio’r gweithlu yn cael eu cymryd. | Mae’r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cael amrywiaeth o wybodaeth sy’n ymwneud ag Adnoddau Dynol gan gynnwys niferoedd staff, absenoldeb oherwydd salwch, rheoli swyddi gwag, a defnyddio staff asiantaeth. Mae’r Tîm Rheoli Corfforaethol yn goruchwylio materion recriwtio a’r ffordd y gweithredir polisïau Adnoddau Dynol er mwyn hwyluso’r broses o roi Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar waith.<br>Mae Adnoddau Dynol wedi gweithio gyda’r Uned Rheoli Perfformiad i ddatblygu pedwar cwestiwn allweddol ynglŷn â chynllunio’r gweithlu i’w cynnwys yn y templed cynllunio gwasanaethau.<br>Mae cynlluniau peilot cynllunio’r gweithlu wedi’u cwblhau mewn dau allan o’r pedwar maes.<br>Datgelodd y cynlluniau peilot fod diffyg data cywir ar iTrent a bod angen gwneud gwaith sylweddol i ddatrys hyn yn gyntaf. Cynhaliwyd gwerthusiadau o’r cynlluniau peilot ac fe’u cyflwynwyd i’r Tîm Rheoli Corfforaethol.<br>Datblygwyd pecyn cymorth i’r gweithlu ar gyfer y meysydd hynny sydd â’r angen mwyaf. Mae Adnoddau Dynol yn helpu’r meysydd hynny i ddefnyddio’r pecyn cymorth.<br>Mae llawer o benaethiaid gwasanaeth o’r farn eu bod yn ymgymryd â gwaith cynllunio’r gweithlu sut bynnag ond nad yw hyn yn cael ei fynegi’n ffurfiol. Roedd y cynllun peilot yn ddefnyddiol ym marn y rhai a gymerodd ran, ond nid oeddent yn siŵr a ellid crynhoi’r wybodaeth hon yn gynllun gweithlu corfforaethol ystyrlon.<br>Nid ystyrir bod diffyg strategaeth Adnoddau Dynol na chynllun i’r gweithlu wedi rhwystro gwaith cynllunio gan swyddogion.<br>Ystyrir materion unigol ynglŷn â chynllunio’r gweithlu fel rhan o broses y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer pob gwasanaeth. Fodd bynnag, byddai cynllun gweithlu corfforaethol yn dal i fod yn fuddiol i’r Cyngor.<br>Bu diffyg ymdrechion corfforaethol yn y sefydliad i ddatblygu cynllun gweithlu corfforaethol. Nid ystyrir ei fod yn flaenoriaeth na bod ei angen oherwydd ansicrwydd gwasanaethau i’w darparu. | Yn mynd rhagddo ond oherwydd diffyg cynnydd,<br>mae cynnig newydd ar gyfer gwelliant wedi cael ei godi. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A8 | Pwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a sicrhau y caiff dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol eu gosod ar gyfer y swyddogaeth gaffael. | Mae diffiniad ysgrifenedig o Wasanaeth Caffael strategol sy'n galluogi wedi cael ei ddogfennu. Mae'n nodi cyfraniad caffael mewn pedwar maes sy'n ymwneud â gweithgareddau prynu:<br>• Gweledeedd<br>• Cydymffurfiaeth<br>• Cyfraniad at elw net<br>• Cysoni a chydweithredu<br>Er mwyn cefnogi pob un o'r meysydd hyn, adolygwyd tystiolaeth o ddadansoddiad o wariant a niferoedd contractau yn ôl cyfarwyddiaeth; hyfforddiant ar ofynion caffael gan gynnwys rheolau sefydlog; cyfarfodydd cydgysylltu â chyfarwyddiaethau gan gynnwys trafodaethau ar gydymffurfiaeth ac arbedion a chyfraniadau at wasanaethau caffael cenedlaethol a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) ynglŷn â chydweithredu ar gyfer yr Adran Gaffael. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| | | Cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu i gefnogi pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a'i gynnwys yn y cynllun gwasanaethau blynyddol. Dyddiadau ar gyfer gweithredu, oll o fewn blwyddyn, gyda llawer o'r camau gweithredu eisoes wedi'u cymryd.<br>Asesir cynnydd yn ffurfiol fel rhan o'r gwaith monitro chwarterol ar y cynllun gwasanaethau. | |
| | | Cyflwynwyd cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol newydd i'r pwyllgor craffu ym mis Mehefin 2014. Daw o restr Llywodraeth Cymru o ddangosyddion fel y bônt yn briodol i gorff llywodraeth leol.<br>Mae'r dangosyddion perfformiad wedi cael eu cysylltu â strategaeth gaffael y Cyngor.<br>Cynhaliwyd adolygiad clwb meincnodi CIPFA a chyflwynwyd adroddiad arno yn ystod haf 2014. | |

| Argymhelliad | | Crynodeb o ganfyddiadau | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| AA – A8 | Pwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a sicrhau y caiff dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol eu gosod ar gyfer y swyddogaeth gaffael. | Rhoddwyd hyfforddiant ar gaffael i swyddogion drwy gydol y flwyddyn. Mae deunyddiau hyfforddiant, rhestrau presenoldeb wedi cael eu hadolygu. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| | | Mae rheolau sefydlog wedi cael eu diwygio a chytunodd y Cyngor arnynt ym mis Tachwedd 2013. | |
| | | Mae strwythur y Tîm Caffael wedi cael ei atgyfnerthu bellach. | |

## Gwaith dilynol ar argymhellion yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd

Mae'r tabl isod yn nodi canfyddiadau ein gwaith dilynol ar y camau gweithredu a oedd eto i'w cymryd ar adeg yr Arolygiad Arbennig mewn perthynas â Thaliadau PIR i Uwch Swyddogion. Mae hefyd yn nodi gwaith dilynol ar bob un o'r argymhellion ynglŷn â Lwfansau PIR Car/Gwyliau Blynyddol:

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Cyflog Uwch Swyddogion A2(b) | Ymgorffori'r gofyniad i aelodau gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn tri mis i etholiad yn y cyfansoddiad. | Mae gan y Cyngor Brotocol Hyfforddiant a Datblygu i Aelodau bellach fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.<br>Mae hyn yn nodi bod hyfforddiant sefydlu yn y Cod Ymddygiad yn orfodol a dylai gael ei gynnal o fewn mis cyntaf cyngor newydd.<br>Mae'r angen i aelodau a swyddogion ddatgan buddiannau wedi'i gynnwys ar agendâu pob un o bwyllgorau'r Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau craffu. Mae hyn yn cael ei ddarllen yn uchel eto ar ddechrau pob cyfarfod. Arsylwyd ar aelodau yn ceisio cyngor gan y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â natur buddiant ac a oes angen ei ddatgan yn ystod cyfarfodydd craffu.<br>Esboniodd y Swyddog Monitro hefyd fod swyddogion ac aelodau yn cysylltu â hi yn amlach i gael cyngor ar ddatgan buddiannau.<br>Yn y pwyllgor craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 21 Hydref, arsylwyd ar aelodau yn datgan buddiannau rhagfarnus ac yn gadael pan drafodwyd yr eitem. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi bod angen ystyried llywodraethu mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig. Yn y pwyllgor craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - arsylwyd asr aelod cyfetholedig, a oedd wedi datgan buddiant, wedi gadael yr ystafell ac yna wedi dychwelyd ac a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. (Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ystyried llywodraethu a rôl mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig, a bydd yn cynnig hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad i aelodau cyfetholedig ar ddechrau 2015.) |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Cyflog Uwch Swyddogion A2(b) (Parhad) | Ymgorffori'r gofyniad i aelodau gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn tri mis i etholiad yn y cyfansoddiad. | Siaradodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd â'r aelod cyfetholedig i'w hatgoffa ei bod wedi datgan buddiant a thynnodd sylw'r Cadeirydd at hyn. Pan siaradodd yr aelod cyfetholedig ar yr eitem, gwnaeth y Cadeirydd ei hatgoffa'n gyflym fod yn rhaid iddi fod yn ofalus gan ei bod wedi datgan buddiant. Roedd y sylw gan yr aelod cyfetholedig yn un ysgafn ac nid effeithiodd ar natur y drafodaeth na'r penderfyniad a wnaed. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. (Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ystyried llywodraethu a rôl mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig, a bydd yn cynnig hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad i aelodau cyfetholedig ar ddechrau 2015.) |
| Cyflog Uwch Swyddogion A2(d) | Adolygu'r broses sefydlu i ddechreuwyr newydd. | Gwelwyd rhestr wirio'r broses sefydlu a gyflwynwyd o 1 Mawrth 2014. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddarparu dogfennau'r Cod Ymarfer a derbyn ffurflen cydnabod y Cod Ymddygiad wedi'i llofnodi gan y cyflogai ac wedi'i throsglwyddo i'r adran Adnoddau Dynol. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A2(g) | Pob un wedi'i gwblhau ond byddent yn cael eu hadolygu yng ngoleuni Cod Ymddygiad i Gymru Gyfan. | Ni fabwysiadwyd y Cod Ymddygiad i Gymru Gyfan am fod problemau. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A2(h) | Adroddiad ar y gofrestr o roddion a lletygarwch i'w gyflwyno'n chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio. | Cytunwyd – arsylwyd ar hynny drwy bresenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Cyflog Uwch Swyddogion A3(a) | Caiff Cyfansoddiad y Cyngor ei adolygu bob blwyddyn. I'w ddiweddaru, a'i ehangu a'i ddiwygio fel y bo angen er mwyn cynnwys rhestr gyfredol o holl bwyllgorau'r cyngor, eu cylch gorchwyl, unrhyw allu dirprwyedig i wneud penderfyniadau, y gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol, maint aelodaeth y pwyllgor ac unrhyw aelodau cyfetholedig. | Cafodd y Cyfansoddiad ei adolygu a'i ddiweddaru a'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Ionawr 2014. Ceir diwygiadau y cytunwyd arnynt i ddiweddaru'r wybodaeth ynglŷn â phwyllgorau yn y ddogfen. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A3(e) | Mae'n rhaid nodi anghenion hyfforddiant a datblygu ar gyfer aelodaeth pob un o bwyllgorau/paneli grwpiau'r cyngor yn flynyddol. Dylai'r hyfforddiant a gynigir gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. | Roedd y camau gweithredu a oedd eto i'w cymryd yn ymwneud â darparu hyfforddiant a'i gyhoeddi ar y wefan. Cadarnhawyd hyn gan adolygiad o ddetholiad o adroddiadau blynyddol cynghorwyr a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A4(a) | Cyhoeddi blaenraglen waith y Cabinet bob chwarter. | Cytunwyd ym mhapurau'r Cyngor y caiff blaenraglen waith tri mis ei chyhoeddi ee, cyfarfodydd y Cabinet ar 2 Ebrill a 22 Ionawr 2014. Hefyd, mae'r flaenraglen waith ar gael ar dudalen ar wahân ar wefan y Cyngor. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Cyflog Uwch Swyddogion A4(d) | Caiff rhaglenni gwaith pwyllgorau craffu eu gwella ymhellach drwy gyflwyno gweithdrefn gyson i'w datblygu. | Roedd y prosesau wedi'u cwblhau ar adeg ein hadolygiad blaenorol ond nid oedd tystiolaeth bod y blaenraglenni gwaith wedi'u paratoi eto. Bellach wedi'u paratoi ac wedi'u gweld ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau craffu Polisi ac Adnoddau (5/8), Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (11/2) ac Addysg am Oes (23/9). At hynny, caiff blaenraglenni gwaith eu cyhoeddi ar wahân ar y rhyngrwyd ar gyfer pob pwyllgor. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A4(e) | Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011, dylid ymgynghori â rhanddeiliaid a thrigolion lleol ynglŷn â blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu (drwy ddefnyddio modd electronig), yn amodol ar gymeradwyaeth gan bob pwyllgor a'u cyhoeddi'n rheolaidd (gan eu cyhoeddi mor aml ag a nodir yng nghanllawiau statudol disgwyliedig Llywodraeth Cymru). | Roedd y broses ar waith ar adeg yr Arolygiad Arbennig diwethaf ond nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno eto. Cytunwyd bod tudalen ar flaenraglenni gwaith ar y rhyngrwyd sy'n gwahodd sylwadau gan aelodau'r cyhoedd ac sy'n cynnwys cyfleuster i gyflwyno sylwadau'n electronig (ar-lein neu drwy e-bost) neu drwy'r post ar ffurflen PDF a ddarperir. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A4(g) | Mae'n rhaid i'r system bleidleisio electronig sydd ar gael yn Siambr y Cyngor gael ei defnyddio ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Cyngor a gynhelir yn Siambr y Cyngor. | Disgwylir iddi fod yn fyw ar yr un pryd ag y dechreuir gweddarlledu ym mis Ionawr 2015. | Heb ei weithredu eto. Caiff ei gwblhau ym mis Ionawr 2015. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Cyflog Uwch Swyddogion A5(a) | Adolygu'r templed adrodd a chysondeb y broses adrodd a'r fformat er mwyn cynnwys crynodeb gweithredol a phenderfyniadau allweddol. | Dim | Dd/G |
| Cyflog Uwch Swyddogion A5(e) | Hyfforddiant i swyddogion ac aelodau er mwyn sicrhau cysondeb ynglŷn â lefel y manylion sydd ei hangen mewn adroddiadau a ystyrir mewn cyfarfodydd a'r terfynau amser ar gyfer y broses ddemocrataidd. | Adolygwyd deunyddiau hyfforddi a chanllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor. Cyflwynwyd y dogfennau i Fwrdd y Rhaglen Gwella Llywodraethu, a chafwyd trafodaeth wedyn gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a chyflwyniad i benaethiaid gwasanaeth yn ystod y cyfarfod Arweinyddiaeth ar 26 Medi. Bwriedir cynnal sesiynau ar gyfer y Grŵp Rheoli Rhwydwaith ehangach ar 12 Rhagfyr ac i'r aelodau yn y flwyddyn nesaf. | Wedi'i gwblhau ar y cyfan, dyddiad cwblhau ym mis Ionawr 2015. |
| Cyflog Uwch Swyddogion A5(g) | Dylai aelodau pwyllgorau craffu gael eu hannog i ofyn cwestiynau i aelodau'r Cabinet a swyddogion. | Mae cyfweliadau ac arsylwi ar gyfarfodydd craffu wedi cadarnhau bod lefel y cwestiynau gan aelodau wedi gwella. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Lwfansau A1 | Dylai cofnodion clir o benderfyniadau gael eu cadw, gan nodi'r penderfyniad a wnaed, pwy a wnaeth y penderfyniad a phryd y cafodd y penderfyniad ei wneud. At hynny, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, dylid rhoi ystyriaeth briodol i b'un a ddylai'r penderfyniadau hyn gael eu cofnodi yng nghofnod penderfyniadau'r Cyngor. Dylai'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu. | Yn ein gwaith ar y flwyddyn flaenorol pan edrychwyd ar sampl o benderfyniadau ni chanfuwyd unrhyw eithriadau o bwys. Fel rhan o'r gwaith dilynol, adolygwyd penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol (gweler uchod). Cafodd y rhain eu cofnodi yng nghofnodion y Tîm Rheoli Corfforaethol yn nodi pwy oedd yn gwneud y penderfyniad ac yn nodi'n benodol mai swyddogion unigol oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnod o benderfyniadau yn cael ei ddiweddaru.<br>Gwnaethom olrhain nifer o benderfyniadau i'r cofnod o benderfyniadau. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |
| Lwfansau A2 | Ni ddylai swyddogion weithredu penderfyniadau oni bai eu bod yn gwybod pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad. Dylai swyddogion gadw tystiolaeth o'r ystyriaeth hon. | Yn ein gwaith ar y flwyddyn flaenorol pan edrychwyd ar sampl o benderfyniadau ni chanfuwyd unrhyw eithriadau o bwys. Rydym wedi gweld deunyddiau hyfforddi a chanllawiau a baratowyd gan y Cyngor ynglŷn â gwneud penderfyniadau (gweler uchod).<br>O ran y penderfyniadau a wnaed yn ystod sampl o gyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, mae cofnod clir o'r penderfyniadau a wnaed. O ran un o'r penderfyniadau hyn, ceir trywydd e-bost clir i swyddogion iau yn nodi pwy a wnaeth y penderfyniad. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b’un a yw wedi’i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Lwfansau A3 | Wrth wneud penderfyniadau, dylai’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau ystyried a oes angen ceisio barn ffurfiol y Swyddog A151 neu’r Swyddog Monitro ac a yw’r farn hon wedi’i rhoi. Pan fo angen barn ffurfiol, dylai proses fod ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar y swyddog statudol er mwyn iddo roi’r farn honno. Dylai swyddogion hefyd gofnodi sut y cafodd y cyngor hwn ei ddilyn. | Aed i’r afael â hyn mewn perthynas ag adroddiadau ffurfiol i bwyllgorau y gwneir penderfyniadau yn seiliedig arnynt (gweler uchod). Yn benodol, mae’r Swyddog Monitro yn adolygu pob adroddiad ac yn gwneud sylwadau ar y rhain a bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol (gan gynnwys y Swyddog A151) yn adolygu pob adroddiad sy’n mynd gerbron y Cabinet i benderfynu arno a bydd yn tynnu’r rhai hynny nad ydynt yn safonol.<br>O ran swyddogion, rydym wedi gweld deunydd hyfforddiant a chanllawiau a baratoir gan y Cyngor (gweler uchod). | Aed i’r afael â’r argymhelliad. |

| Argymhelliad | Camau Gweithredu | Crynodeb o ganfyddiadau/asesiad | Asesiad o b'un a yw wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| Lwfansau A4 | Dylai adroddiadau a baratoir i ategu prosesau gwneud penderfyniadau ddilyn fformat safonol, gan nodi'n benodol awdur yr adroddiad a chyda phwy yr ymgynghorwyd. Dylai adroddiadau gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r opsiynau sydd ar gael. | Mae adroddiadau yn dilyn fformat safonol fel y'i defnyddiwyd yn wreiddiol gan y Cyngor. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â strwythur adroddiadau – cytunwyd i barhau â'r strwythur presennol.<br>Darparwyd hyfforddiant a chanllawiau fel y'i nodwyd uchod. Mae cyfweliadau yn ategu'r ffaith bod rhestrau cynhwysfawr o opsiynau yn cael eu cynnwys bellach.<br>Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn adolygu ac yn trafod pob adroddiad sy'n mynd gerbron pwyllgorau craffu a'r Cabinet i gadarnhau bod ansawdd adroddiadau yn ddigonol. Cyfeiriwyd at enghreifftiau lle roedd y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi gohirio cyflwyno adroddiadau nes bod lefel y wybodaeth ac ansawdd yr adroddiad yn ddigonol.<br>Roedd y grŵp Arweinyddiaeth Craffu wedi cael trafodaeth fanwl ynglŷn ag ansawdd adroddiadau yn ei gyfarfod ym mis Medi. Er ei fod yn teimlo bod y safon yn dda yn gyffredinol, rhoddodd yr adborth canlynol i wella'r ansawdd ymhellach:<br>• roedd diffyg manylion mewn rhai adroddiadau ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth anghywir;<br>• mwy o fanylion ynglŷn â'r wybodaeth ariannol, yn enwedig costau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a gyflwynwyd mewn adroddiad;<br>• cynnwys data cymharu, hoffai aelodau weld data yn cael eu rhoi yn eu cyd-destun, gan gynnwys, er enghraifft, cyfartaledd Cymru;<br>• gall rhai darnau o wybodaeth gael eu claddu mewn atodiadau;<br>• dylai fod gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi craffu effeithiol; a<br>• dylai gwybodaeth bwysig gael ei rhoi ym mhrif gorff yr adroddiad yn hytrach nag yn yr atodiadau. | Aed i'r afael â'r argymhelliad. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk